GAMBLING COMMISSION

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Cyflwyniad cyflym i'r Comisiwn Hapchwarae

Sefydlwyd y Comisiwn Hapchwarae o dan Ddeddf Hapchwarae 2005 (y Ddeddf) i reoleiddio hapchwarae ym Mhrydain Fawr mewn partneriaeth gydag awdurdodau trwyddedu.

Pwy ydym ni

Sefydlwyd y Comisiwn Hapchwarae o dan y Ddeddf Hapchwarae 2005 (y Ddeddf) i reoleiddio hapchwarae ym Mhrydain Fawr mewn partneriaeth gydag awdurdodau trwyddedu.

Rydym yn gorff cyhoeddus an-adrannol annibynnol a noddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Mae gennym tua 200 o weithwyr, yn gweithio yn ein swyddfeydd ym Mirmingham yn bennaf, gydag oddeutu 50 o gydweithwyr sy'n ymwneud â chydymffurfio a gorfodaeth (sy'n gweithio o'r cartref) yn gweithio ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban.

Cyllidir ein gwaith gan ffioedd a osodir gan DCMS ac sy'n cael eu talu gan sefydliadau ac unigolion a drwyddedir gennym ni.

Beth rydym yn ei wneud

Rydym yn caniatáu hapchwarae a, thrwy reoleiddio effeithiol ac ymgysylltu â'r cyhoedd, rydym yn sicrhau bod trosedd yn cael ei gadw allan o hapchwarae; bod hapchwarae yn deg ac yn agored; a bod plant a phobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn.

Rydym yn trwyddedu gweithredwyr ac unigolion sy'n darparu'r gweithgareddau canlynol ym Mhrydain Fawr:

- arcedau
- betio
- bingo
- casinos
- cyflenwi a chynnal peiriannau hapchwarae
- cyflenwi meddalwedd hapchwarae
- loterïau* a rheolwyr loterïau allanol
- hapchwarae o bell (gan gynnwys betio ar-lein, ar y ffôn, neu drwy unrhyw ddyfais cyfathrebu electronig arall) gan ddefnyddio offer a leolir ym Mhrydain.

Sut rydym yn rheoleiddio

Rydym yn rheoleiddio mewn dull tryloyw, atebol, cymesur, cyson ac wedi ei dargedu gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i sicrhau y cydymffurfir â'r Ddeddf ac amodau'r trwyddedau a'r codau ymarfer y mae'n rhaid i bob un sy'n dal trwydded eu dilyn.

Rydym yn cymryd camau gorfodi lle mae hynny'n angenrheidiol. Rydym hefyd yn brwydro yn erbyn gweithgareddau hapchwarae anghyfreithlon a llygredd mewn chwaraeon a mathau eraill o fetio.

Rydym yn cyhoeddi ein hagwedd at ddehongli'r Ddeddf lle mae angen hynny ac yn cefnogi ein gweithgaredd cydymffurfio a gorfodaeth drwy gyfathrebu clir a rheolaidd.

Drwy gasglu gwybodaeth a chudd wybodaeth, rydym yn cynnal sail tystiolaeth a ddefnyddir i gynghori'r llywodraeth.

Rydym yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys awdurdodau trwyddedu, a chyda chyrff fel yr heddlu a Chyllid a Thollau EM (HMRC).

Ble gallaf ddod o hyd i fwy o wybodaeth?

I ganfod mwy am y Comisiwn Hapchwarae a sut y gallwch gadw o fewn y gyfraith, darllenwch y Cwestiynau Cyffredin a'r canllawiau cyflym ar ein gwefan. www.gamblingcommission.gov.uk

Beth nad ydym yn ei wneud

- Nid ydym yn cynorthwyo unigolion i ddatrys cwynion defnyddwyr am drafodion hapchwarae (er enghraifft, nid ydym yn cynorthwyo i gael ad-daliad o'r betiau a roddwyd, neu a gafodd eu rhoi mewn peiriant hapchwarae). Mae'n ofynnol i rai sydd â thrwyddedau fod â threfnau ysgrifenedig ar gyfer trin cwynion cwsmeriaid, yn ogystal â threfniadau i sicrhau bod unrhyw anghydfod yn cael ei gyfeirio at drydydd parti annibynnol.
- Nid ydym yn rhoi cyngor cyfreithiol penodol i helpu i ddatblygu modelau na syniadau busnes unigol, ond yr ydym yn darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol am y Ddeddf a'n hagwedd at y rhai hynny sydd angen trwydded.
- Nid ydym yn rheoleiddio'r holl wefannau hapchwarae sy'n hygyrch i'r cyhoedd ym Mhrydain Fawr; mae'r mwyafrif wedi eu lleoli dramor ac yn cael eu rheoleiddio yno.
- Nid ydym yn rheoleiddio betio gwasgarog (rheoleiddir hyn gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol) neu'r Loteri Genedlaethol*.

Mae awdurdodau trwyddedu yn gyfrifol am y canlynol:

- rhoi trwyddedau safleoedd i weithredwyr hapchwarae
- rhoi caniatadau i weithredwyr hapchwarae (sy'n caniatáu hapchwarae gyda betiau isel mewn canolfannau nad ydynt ar gyfer hapchwarae yn bennaf)
- cymdeithasau cofrestru – gan ganiatáu iddynt gynnal loterïau bach
- cydymffurfio â'r Ddeddf a'i gorfodi'n lleol.

*Yn 2010, cyhoeddodd y llywodraeth y byddai'r Comisiwn Hapchwarae a Chomisiwn y Loteri Genedlaethol yn uno. Disgwylir i'r uno ddigwydd erbyn diwedd 2012, a chyn hynny byddant yn dod at ei gilydd ym Mirmingham o ddiwedd 2011.

cadw hapchwarae yn deg ac yn ddiogel i bawb

www.gamblingcommission.gov.uk

Gambling Commission ■ Victoria Square House ■ Birmingham ■ B2 4BP
Ffôn: 0121 230 6666 ■ Ffacs: 0121 230 6720

INFO 11/10W